

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o rhithwir gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 19
Tachwedd 2020 am 3.00 pm.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd G Caple (Cadeirydd)

Y Cyngorydd S Rees Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd G Hughes Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd W Owen Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd D Williams Y Cyngorydd S Powderhill

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi

31 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, roedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ynglŷn â Chais Rhif:20/1099 - Dymchwel y garej bresennol a chodi garej newydd. 1 HEOL AUBREY, GLYNFACH, Y PORTH, CF39 9HY

“Mae fy ngwraig a minnau'n berchen ar yr eiddo sy'n gysylltiedig â'r cais hwn a byddaf yn gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.”

**32 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

33 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

34 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2020 yn rhai cywir.

35 CAIS RHIF: 17/1202

Datblygiad ar gyfer hyd at 2,112 metr sgwâr gros o fannau cyflogaeth newydd (dosbarthiadau defnydd B1, B2, B8) mewn hyd at 16 uned, mynediad newydd, tirlunio a gwaith datblygu cysylltiedig. TIR YM MHARC BUSNES CWM CYNON, HEOL NEWYDD, ABERPENNAR, CF45 4ER

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

36 CAIS RHIF: 19/1314

Gwaith adnewyddu cyffredinol ac addasiadau allanol gan gynnwys dwy ardal teras allanol newydd (derbyniwyd yr adroddiad Ecoleg ar 09/10/2020). TAFARN Y MALTSTERS ARMS, STRYD Y BONT, PONTYPRIDD, CF37 4PF

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

37 CAIS RHIF: 20/0791

**Balconi yn y cefn.
6 HEOL Y FEDWEN, PONTYPRIDD, CF37 2HE**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

38 CAIS RHIF: 20/1099

**Dymchwel y garej bresennol a chodi garej newydd.
1 HEOL AUBREY, GLYNFACH, Y PORTH, CF39 9HY**

(Nodyn: Ar ôl iddo ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â'r mater yma (gweler cofnod Rhif:31), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple y cyfarfod a chamodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees i rôl y Cadeirydd.)

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

39 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 26/10/2020 – 06/11/2020.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm

**Y Cyngorydd G Caple
Cadeirydd.**